**Jeremy Miles**
Dros Ddyfodol Cymru

# Ein cenhadaeth ar gyfer dyfodol Cymru



Hyrwyddwyd gan Deborah Davies ar ran Jeremy Miles yn Riverside House, Normandy Road, Abertawe, SA1 2JA



# Annwyl gyfaill

Cefais fy magu i gredu y gall gwasanaeth cyhoeddus wneud gwahaniaeth.

Wrth dyfu i fyny, roedd rhywbeth ysbrydoledig a chyffrous i mi wrth glywed fy nhad-cu yn siarad am yr ymgyrchoedd y bu'n rhan ohonynt i ddod â meddygfa a llyfrgell newydd i'n pentref, ynghyd â sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yno, ochr yn ochr â'r ysgol Saesneg.

Gwyddwn yn iawn ei fod yn waith caled dros ben ond taniwyd fy mrwdfrydedd gan yr ymdeimlad y gallwn ni newid bywydau pobl er gwell trwy weithredu gwleidyddol ymarferol.


Cawsom ein magu i gredu bod pawb yn gyfartal, beth bynnag bo'u cefndir. Es i ysgol gyfun Gymraeg yn yr 80au, ar adeg pan oedd yn rhaid i chi deithio pellteroedd enfawr i elwa o'r dewis hwnnw. Roedd hi'n denu plant o ben cwm Tawe, i waelod penrhyn Gŵyr. Roedd yr 80au yn gyfnod anodd dros ben i lawer o deuluoedd, ac roedd llawer o blant yn yr ysgol - yr oedd eu rhieni'n aml yn lowyr oedd ar streic - yn ei chael hi'n anodd, a gadawodd hynny ei ôl arnaf.

Gwnes i dyfu i fyny yn hoyw ar adeg pan nad oedd unrhyw ran o 'mywyd yn dweud wrtha i ei fod yn iawn i deimlo'r ffordd honno, a phan oeddwn i'n aml yn teimlo ar y tu allan, ac yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'm lle yn y byd.

Rwy'n dweud hyn, nid oherwydd fy mod i'n meddwl bod y rhesymau hyn ynddynt eu hunain yn rhai da i chi fy nghefnogi i ddod yn arweinydd Llafur Cymru – wedi'r cwbl, mae gan bawb eu stori eu hunain. Ond, pan ddywedaf wrthych am fy ymrwymiad i gydraddoldeb, ac i godi dyheadau ein holl bobl ifanc, am yr angen am wasanaethau cyhoeddus sy'n darparu'r gorau ar gyfer pobl ac economi sy'n cynnig cyfle i bawb ffynnu – rydych chi'n gwybod fy mod yn ei deimlo'n angerddol, mae'n hirsefydlog, ac yn bersonol iawn.

Yn y maniffesto hwn, mae llawer o drafodaeth am bolisi. Mae syniadau yn bwysig, efallai eu bod yn arbennig o bwysig yn y cyfnod heriol yr ydym yn byw ynddo heddiw. Ond i mi, mae gwasanaeth cyhoeddus yn ymwneud â phobl. Wrth i ni chwilio am atebion llawn dychymyg i'r heriau dybryd sy'n ein hwynebu, ac i roi ein hunain nawr yn y sefyllfa orau i ffynnu yn y dyfodol – mae'r creadigrwydd, y profiad ymarferol, y gwerthoedd sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn sy'n hanfodol i'r dasg honno, oll i'w gweld ym mywydau pobl ledled Cymru.

Dyna pam rwy'n obeithiol am ddyfodol Cymru.



# Fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru

Hoffwn weld Cymru lle gallwn ni i gyd fyw'n dda, lle mae ein cenhedlaeth nesaf yn etifeddu ffyniant, ac yn tyfu i fyny mewn gwlad gyfiawn, gynhwysol, wyrddach lle rydym ni i gyd yn teimlo'n gartrefol. Dylai ein gwasanaethau cyhoeddus, ein heconomi a'n cymdeithas ehangach roi cyfle teg i bob un ohonom gyflawni ein potensial a byw'r bywyd a ddymunwn. Ni ddylid gadael neb ar ôl.

Rwy'n hynod falch o'r modd y mae Llafur Cymru wedi llunio Cymru. Mae'n wlad sy'n cynnwys gofal iechyd, dysgu gydol oes a sefydliadau diwylliannol am ddim i bawb; gwlad sy'n credu bod mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gorfod bod yn ganolog i bopeth a wnawn.

Byddaf yn adeiladu ar y sylfeini hyn gydag ymrwymiad i ffyniant ac undod. Gyda'n gilydd byddwn yn cyflawni mwy o gydraddoldeb a mwy o gyfoeth i'w rannu. Bydd Cymru yn genedl lle mae pobl ifanc, wych am ddod i fyw, gweithio a magu teuluoedd, a lle mae dinasyddion o bob oed yn byw mewn urddas a pharch. Bydd Cymru'n edrych tuag allan yn hyderus, gan ddathlu cyfoeth ei threftadaeth ac amrywiaeth ei chymunedau.



***Mae'r genedl rydw i eisiau ei harwain yn un lle mae gan bawb gyfle i ffynnu.***

# Fy addewidion allweddol

## Ysgogiad economi werdd

Targedu holl wariant cyfalaf a chaffael Llywodraeth Cymru – ochr yn ochr â modelau ariannu newydd mewn partneriaeth â llywodraeth leol – i greu swyddi cynaliadwy o safon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

## Buddsoddi mewn addysg

Cynyddu'r ganran o gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwario ar ysgolion, fel y buddsoddiad gorau mewn cyfiawnder cymdeithasol ac mewn economi iach.

## Torri rhestrau aros y GIG

Sefydlu canolfannau orthopedig pwrpasol ar gyfer gosod pen-glin a chlun newydd i glirio ôl-groniadau.

## Tai gweddus yn ein cymunedau

Ehangu tai cydweithredol a mynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu cartrefi cymdeithasol.

## Tocynnau teithio tecach, trafnidiaeth well

Prisiau tocynnau bws symlach a thecach i annog teithio wrth i ni ail-reoleiddio'r rhwydwaith bysus.

## Llais cryfach i bobl Cymru

Cryfhau'r Senedd, datganoli pŵer yng Nghymru a sicrhau bargen decach i Gymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Lafur yn y DU.

# Blaenoriaethau di-oed, uchelgais hirdymor



O'r diwrnod cyntaf, byddaf yn dod ag ymdeimlad o frys a phwrpas i fwrw ymlaen â'r cynigion yn y maniffesto hwn. Gellir bwrw ymlaen â rhai syniadau yn gyflym, bydd eraill yn cael eu cyflawni dros y tymor hwy.

Mae sefyllfa bresennol y gyllideb yn gosod cyfyngiadau gwirioneddol ar fentrau gwariant newydd yn y tymor byr. Mae pob un o weinidogion y llywodraeth wedi gorfod gwneud penderfyniadau ar wariant dros y flwyddyn nesaf na fyddent am eu gwneud, ac nad ydynt yn adlewyrchu dewisiadau tymor hwy.

Serch hynny, ni fydd hyn yn cyfyngu ar ein huchelgeisiau nac yn tynnu oddi wrth yr angen am ymagweddau radical a llawn dychymyg.

Mae'r cyd-destun cyllido yn golygu y byddwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau dydd i ddydd pobl ledled Cymru.

Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni maniffesto etholiad 2021 Llafur Cymru. Byddaf yn sicrhau ein bod yn cryfhau'r Senedd i roi'r gynrychiolaeth i ni y mae ar bobl Cymru ei hangen ac y mae'n ei haeddu.

Ar yr un pryd, byddaf yn arwain y frwydr yng Nghymru am lywodraeth Lafur yn y DU, gan weithio gyda'n hymgeiswyr a'n hymgyrchwyr ledled y wlad ac yna'n gweithio gyda'n gilydd gyda'r llywodraeth newydd honno, fel y gall Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig edrych at ddyfodol mwy disglair.

Y tu hwnt i hynny, byddaf yn sicrhau ein bod ni fel plaid yn datblygu cynnig gweledigaethol a chyffrous i'w gyflwyno i'r wlad yn 2026. Bydd angerdd, syniadau a chreadigrwydd ein haelodau yn hollbwysig wrth wneud hyn a byddaf yn creu rhagor o gyfleoedd i chi gyfrannu.

# Cymru yn 2024: Cyflwr ein cenedl



Mae'r byd yn newid yn gyflym. Wrth i Gymru wynebu'r chwarter canrif nesaf, mae'r cyd-destun yn wahanol iawn i'r un ddiwethaf. Ond mae ein gwerthoedd Llafur Cymru yn parhau.

Mae'r pum mlynedd ar hugain diwethaf wedi gosod y sylfaen ar gyfer ein dyfodol. Rydym wedi meithrin ymdeimlad hyderus o hunaniaeth gyda Senedd genedlaethol. Mae Llafur Cymru wedi arwain y ffordd wrth olrhain cwrs blaengar, yn fwyaf nodedig gydag arweinyddiaeth feiddgar, gynhwysol ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cael ei pharchu'n fyd-eang, a'n hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol. Canran y menywod mewn gwaith yng Nghymru sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf o bob rhan o'r DU dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cefnogaeth i'r Gymraeg yn gyffredin erbyn hyn – mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom.

Dros y blynyddoedd i ddod, wrth i lywodraeth Llafur Cymru nesaf adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan ei rhagflaenwyr, bydd heriau newydd yn galw am ddulliau gweithredu newydd. Rydym yn wlad sy'n rhy dlawd o hyd. Mae ein GIG wedi'i ymestyn bron i'r eithaf, ac mae'r newidiadau o gymdeithas sy'n heneiddio ac o ddatblygiadau gwyddonol yn golygu, er mwyn ei ddiogelu fel gwasanaeth cyhoeddus, am ddim ar y pwynt gofal, bod yn rhaid i ni roi sylfaen o gyllid sefydlog iddo a gweithio gyda'n gweithlu iechyd gwych i'w wneud yn esiampl o arloesi ym maes gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn wynebu gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio felly mae angen i ni gadw a denu pobl ifanc i fyw, gweithio a'n helpu i gryfhau ein heconomi ledled Cymru. Mae gwaith wedi dod yn fwy ansicr hyd yn oed i'r rheini sydd mewn gwaith, ac ni fu erioed gymaint o frys am weithlu â sgiliau uwch. Ar ben hyn, mae dyfodol cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn gynyddol fregus, dan fygythiad gan weithredoedd llywodraeth y Torïaid sy'n ddi-hid am ddyfodol yr undeb. Mae cyllideb Cymru, a bennwyd gan Lywodraeth y DU, wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real ac ni allwn ddisgwyl i hynny gael ei wrthdroi dros nos hyd yn oed gyda llywodraeth Lafur newydd yn y DU wrth iddi ymgodymu ag etifeddiaeth economaidd echrydus y Torïaid.

Bydd gallu Cymru i sefydlu safle blaenllaw mewn gwyddoniaeth, technoleg ac arloesi yn cael dylanwad enfawr ar ein ffyniant, ein cyflogaeth a'n safonau byw yn y dyfodol, a'r rheini o'r genhedlaeth nesaf dros y 25 mlynedd nesaf. Mae tair technoleg yn benodol - deallusrwydd artiffisial, biotechnoleg a thechnoleg hinsawdd - yn debygol o chwarae rôl ddiffiniol yn nyfodol dynoliaeth. Hyd yn oed lle nad ydym o bosib yn arwain meddylfryd y byd ar y technolegau hyn, gallwn ac mae'n rhaid i ni greu amgylchedd sy'n annog mynd ar drywydd a chymhwyso gwyddoniaeth a thechnoleg, ac addasu a mabwysiadu'n gyflym, mewn ffordd na all gwledydd mwy, arafach, ei wneud. Gall deallusrwydd artiffisial a thechnoleg fod yn rhan o'r ateb ar gyfer economi gryfach, swyddi sy'n talu'n well, gwasanaethau cyhoeddus a all fynd ymhellach i gefnogi ein pobl, ac wrth fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd hyn yn golygu ail-lunio sefydliadau cyhoeddus, ac adeiladu isadeiledd a galluoedd data y cyfnod deallusrwydd artiffisial.

Yn erbyn y gefnlen hon, ni ddylai ein nod fod yn ddim llai na thrawsnewid wrth i ni ddechrau'r bennod nesaf yn stori Cymru. Mae'n briodol bod pobl yn disgwyl i ni flaenoriaethu hanfodion bywyd pob dydd y maent yn dibynnu arnynt heddiw – a byddwn yn gwneud hynny – ond, ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd yfory y byddwn ni, a chenedlaethau'r dyfodol, yn eu hwynebu. Sut rydyn ni'n trawsnewid i ffordd o fyw sy'n amddiffyn ein hinsawdd – rydym yn gweld y patrwm arswydus o lifogydd a thywydd poeth eithafol yn dod yn fwyfwy rhan o fywyd pob dydd - wrth sicrhau bod beichiau a chyfleoedd y trawsnewidiad hwnnw'n cael eu rhannu'n deg ac yn creu cymdeithas decach. Sut mae datblygiadau mewn technoleg a deallusrwydd artiffisial yn effeithio ar ein bywydau. Ni all Cymru ddatrys yr heriau hyn ar ei phen ei hun ond maent hefyd yn creu cyfleoedd i wledydd bach, ystwyth, os ydym yn dewis achub arnynt.

Ni fydd hyn yn hawdd, ond rwy'n hyderus y gallwn gyflawni hyn. Er mwyn llwyddo, bydd yn rhaid i ni fagu ymdeimlad o genhadaeth, ysbryd o undod a chyfraniad cyfunol. Ond gall Cymru wneud hyn mewn ffordd na allai llawer o genhedloedd eraill – a dyna pam rwy'n gwybod y gallwn wneud y penderfyniadau beiddgar, hirdymor a fydd yn arwain at yfory wedi'i drawsnewid i'n plant ac i blant ein plant. Bydd angen ymdeimlad o bwrpas a rennir gan bobl ar draws Cymru: dinasyddion, llywodraeth Cymru, llywodraeth y DU a llywodraeth leol, undebau llafur, busnesau, sefydliadau cydweithredol a thrydydd sector, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer ein gweledigaeth gyffredin o Gymru sy'n lle gwych i fyw a gweithio.

Ar y tudalennau canlynol, mae'r trywydd sydd ei angen arnom ar gyfer y daith honno - sut rydym yn cymhwyso gwerthoedd parhaus Llafur Cymru at heriau newydd a chyfleoedd newydd ar y llwybr sydd o'n blaenau i'r Gymru lewyrchus, gyfiawn ac uchelgeisiol honno.

Gobeithio y byddwch yn ymuno â mi ar y daith honno i ddyfodol Cymru.

> ***Ni ddylai ein nod fod yn ddim llai na thrawsnewid***

# Ein taith

# Ffyniant, swyddi da a thwf gwirioneddol gynaliadwy

## Nid oes llwybr i'r wlad fwy tosturiol yr ydym am i Gymru fod nad yw'n mynd trwy'r wlad fwy ffyniannus y mae angen i Gymru fod.

Fy nwy uchelgais ar gyfer economi Cymru yw gwella ein ffyniant a chynyddu undod rhwng pob un ohonom. Dim ond trwy gydgefnogaeth, cyhoeddus a phreifat, llywodraeth a busnes, undebau llafur a chyflogwyr, cymunedau ac unigolion, y gallwn lwyddo gyda'n gilydd a sicrhau bod ein cenedl yn llwyddiannus. Ers 2010, mae Llywodraeth y Torïaid yn Lloegr wedi ceisio popeth o fewn ei gallu i'n gosod yn erbyn ein gilydd, gan geisio gosod gweithwyr ysbyty sydd ar streic yn erbyn cleifion, gweithwyr rheilffordd yn erbyn teithwyr, athrawon yn erbyn rhieni a disgyblion. Rydym yn gwrthod hyn yn llwyr a bydd y Gymru rwy'n ei harwain yn ei wrthod hefyd.

Rhoi terfyn ar dlodi, mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae'n eu hachosi a thwf economaidd gwirioneddol gynaliadwy yw'r etifeddiaethau mwyaf y gallwn eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Dyma pam mai datgloi potensial economi Cymru fydd fy mhrif flaenoriaeth. A gallwn wneud hyn orau drwy fanteisio ar y cyfleoedd cyffrous a ddaw yn sgil trawsnewid ein heconomi yn economi werdd gynaliadwy. Dyma'r dyfodol.

Mae busnesau da yn bartner wrth gyflawni'r weledigaeth hon a byddwn yn eu helpu i chwarae eu rhan. Rwy'n gwybod hyn o fy mhrofiad fy hun o weithio mewn busnesau am bron i ddau ddegawd cyn i mi gael fy ethol. Gallwn wella bywydau a lles pobl drwy adeiladu economi fwy mentrus a chystadleuol yn fyd-eang, meithrin clystyrau sector a chadwyni cyflenwi lleol, cryfhau ein hisadeiledd, gan gynnwys drwy wthio'n galed i ddiwygio'r grid cenedlaethol a buddsoddi ynddo, a gosod y nod i'n hunain o wneud Cymru'r lle mwyaf deniadol yn y DU i fuddsoddi ynddo.

Bydd angen i lywodraethau ar bob lefel, Cymru, y DU a lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hyn yn digwydd, gan gynnwys adeiladu ar gydweithredu trawsffiniol llwyddiannus fel Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy ac archwilio ffyrdd o ddiwygio'r modd y mae'r ardoll brentisiaethau yng Nghymru yn gweithredu i gefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau yng Nghymru, fel maes datganoledig.

Byddwn yn chwilio am bob cyfle i fanteisio ar ein maint cymharol fach fel cenedl ddatganoledig i symud yn gyflymach ac yn fwy beiddgar nag y gall eraill: defnyddio ein pwerau a'n sefyllfa i helpu i greu'r amodau cywir ar gyfer cymryd risgiau a dyfeisio, i'w gwneud haws dechrau a rhedeg busnes, sefydlu a thyfu cwmnïau sydd wedi'u gwreiddio a chaniatáu i ysbryd menter o Gymru ffynnu. Bydd arloesi eang a chynhyrchiant cynyddol yn hanfodol i'r weledigaeth hon, ac mae cynyddu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat mewn ymchwil a datblygu yn flaenoriaeth. Mae hyn yr un mor berthnasol yn ein cymunedau gwledig ag y mae yn ein dinasoedd a'n trefi. Byddwn yn dod â ffocws newydd ar arloesi yn ein heconomi wledig.

Byddwn yn gwneud hyn oll mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau a chyflogwyr, gan weithio gyda sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch – i gyd â'r nod o helpu i greu

swyddi o ansawdd uchel â chyflog da mewn sectorau cynaliadwy. Mae gwaith teg wrth wraidd fy ngweledigaeth ar gyfer economi Cymru, a byddwn yn hyrwyddo perchnogaeth gweithwyr, ac yn parhau â'n hymrwymiad i'r economi sylfaenol yr wyf wedi bod yn falch o'i hyrwyddo ers imi gael fy ethol i'r Senedd am y tro cyntaf. Mae angen i'n sectorau diwydiannol a thechnegol arloesi a thrawsnewid yn gyflym i'r diwydiannau a fydd yn siapio byd yfory. Mae dyfodol i gynhyrchu dur ym Mhort Talbot a Chymru y mae'n rhaid i ni weithio drosto, gyda'n gilydd. Mae angen y gallu i gynhyrchu dur sylfaenol strategol sy'n amgylcheddol gynaliadwy ar Gymru a'r DU ar gyfer ein diogelwch economaidd, ein hanghenion isadeiledd cynyddol, ac ar gyfer y miloedd o swyddi da y mae'n eu darparu. Mae dur gwyrddach yn sector o'r dyfodol a fydd yn darparu swyddi â chyflogau da am ddegawdau lawer i ddod. Mae'n rhaid i ni sicrhau y caiff ei gefnogi ac y buddsoddir ynddo – a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth Lafur newydd yn y DU i amddiffyn ein sector dur a'n cymunedau cynhyrchu dur.

Wrth i ni drosglwyddo i economi fwy cynaliadwy, mae angen i ni helpu pobl i weld y cyfleoedd a ddaw yn ei sgil yn ogystal â'r newidiadau y mae'n gofyn amdanynt: pontio teg. Byddwn yn adeiladu ar ein llwyddiannau yn yr economi gylchol lle mae gwastraff y gorffennol yn elfen hanfodol o'r dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran o'r cyfleoedd sy'n deillio o uchelgais Llafur ar gyfer Prydain fel Archbŵer Ynni Gwyrdd gan adeiladu ar seiliau cadarn ein cwmni ynni cenedlaethol Trydan Gwyrdd Cymru. Bydd ynni adnewyddadwy wrth wraidd ein polisi economaidd, gydag ymrwymiad i gynyddu ein cyfran o'r sector ynni adnewyddadwy morol ac ar y tir, wedi'i gefnogi gan bolisi cymorth sgiliau a busnes sy'n nodi'r potensial economaidd a chyflogaeth a ddaw yn sgil y sector hwn i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Gyda'r ymagwedd gywir at sero net a datblygu sgiliau digidol a chysylltiadau da yn y gweithle, gall ein gweithlu ffynnu wrth i dechnolegau newydd gael eu mabwysiadu – mae enghreifftiau da o hyn eisoes yng Nghymru mewn gweithgynhyrchu uwch a sectorau eraill. Bydd cadw a thyfu sector gweithgynhyrchu uchel ei werth Cymru yn hanfodol ar gyfer ansawdd swyddi, ein cymunedau a chadwyni cyflenwi ehangach. Byddwn yn cefnogi busnesau Cymru i addasu a dilyn datblygiadau arloesol newydd, gan ddysgu gan y gorau, annog arloesedd a arweinir gan weithwyr, a chyda strategaeth ar gyfer sgiliau a hyfforddiant sy'n adeiladu ar adolygiad Lusher ac sy'n cyd-fynd â'n strategaeth economaidd.



# Fy mlaenoriaethau

- Tyfu'r economi'n gynaliadwy a chynyddu ein ffyniant fel cenedl fydd fy mhrif flaenoriaeth yn y llywodraeth, gan ddefnyddio ein holl ysgogiadau i drechu tlodi a lledaenu cyfoeth. Byddwn yn ailffocysu ein Cenhadaeth Economaidd dros amser, er mwyn helpu i gyflawni hyn.
- Creu Cyngor Economaidd Cenedlaethol newydd i gynghori'r llywodraeth ar bolisïau strategol i gyflawni ffyniant economaidd cynaliadwy ac undod.
- Rhoi achos dros gael pwerau benthyca gwell i Gymru, a cheisio negodi partneriaethau ariannu ar y cyd â llywodraeth leol, i gefnogi ein huchelgeisiau economaidd.
- Ailffocysu ein buddsoddiad cyfalaf a'n gwariant caffael yn becyn ysgogiad economaidd Twf Gwyrdd Da.
- Defnyddio tystiolaeth a phrofiad rhyngwladol diweddar i ystyried yr achos dros ddatblygu economaidd - sy'n canolbwyntio ar dwf cynaliadwy, buddsoddiad, entrepreneuriaeth, cymorth cynhyrchiant a chreu swyddi da - i'w darparu o hyd braich oddi wrth y llywodraeth ac ymestyn cylch gwaith Banc Datblygu Cymru ar gyfer cefnogi buddsoddiad gwyrdd.
- Cefnogi cydweithredu economaidd trawsffiniol dyfnach, yn enwedig yng nogledd ddwyrain Cymru, a manteisio ar y buddsoddiad ym Mlaenau'r Cymoedd.
- Sicrhau bod ein prifysgolion, y gymuned o fuddsoddwyr, busnesau, entrepreneuriaid a Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd cenedlaethol, gan gynnwys arloesi.
- Annog ein cwmnïau llwyddiannus, canolig eu maint, i aros yn eu cymunedau.
- Ymgyrch “Llwyddo yng Nghymru” i ddenu talent i Gymru a dod â Chymry byd-eang adref, gan gynnwys archwilio cymhellion ariannol newydd ar gyfer ein graddedigion newydd a diweddar i sefydlu busnesau a gweithio yng Nghymru.
- Helpu busnesau i ymdopi â'r amgylchedd rheoleiddio i gefnogi cydymffurfiaeth, a datblygu adnoddau cynllunio ar draws Cymru i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.
- Cyflwyno deddfwriaeth a chanllawiau wedi'u hysbrydoli gan Marcora sy'n cefnogi perchnogaeth gweithwyr hyd eithaf ein pwerau datganoledig, er mwyn sicrhau newid sylweddol.



# Cymru iachach a gofalgar

## Dylai bywyd heb ofn salwch heb ei drin ac anghenion gofal heb eu diwallu fod yn nod mwyaf sylfaenol cymdeithas barchus

Er mwyn sicrhau bod y GIG yno i ofalu am genedlaethau'r dyfodol, mae'n rhaid i ni ei helpu i wrthsefyll y pwysau enfawr y mae'n ei wynebu yn well. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, mae'n wynebu heriau ariannu, ond mae hyn yn ymwneud â mwy na hynny. Y ffordd orau o gynnal GIG cyhoeddus, sydd am ddim ar y pwynt gofal, am y 75 mlynedd nesaf – fel y byddwn yn ei wneud dan fy arweinyddiaeth ac fel rydym wedi'i wneud dros y 75 mlynedd diwethaf – yw dod â'r un lefel o feddwl ffres ag a arweiniodd at ei sefydlu gan ein plaid ym 1948. Byddaf yn gwrthod unrhyw gynigion i breifateiddio darpariaeth, ac yn canolbwyntio ar newid cadarnhaol o fewn gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hyn yn golygu gwneud gwelliannau cyflym, tymor byr gan fagu meddylfryd a brys o'r ymateb i'r pandemig, a mynd i'r afael â rhwystrau i gynnydd a chydweithrediad, ar yr un pryd â gosod y sylfeini ar gyfer y newidiadau tymor hwy sydd eu hangen arnom.

Byddwn yn mynegi gweledigaeth a strategaeth newydd a chlir ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, sy'n diffinio'r system a'r canlyniadau yr ydym yn anelu atynt, ynghyd â chynllun ar gyfer sut y byddwn yn eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys cydraddoldeb ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol, gan adlewyrchu'r realiti bod problemau iechyd meddwl bellach ar lefelau digynsail a bod mynd i'r afael â hwy yn flaenoriaeth frys. Yn erbyn hyn, byddwn yn gosod nifer cyfyngedig o flaenoriaethau ac yn canolbwyntio holl ymdrechion Llywodraeth Cymru arnynt ledled Cymru. Dylai canlyniadau cleifion a phrofiad y claf fod o'r pwys mwyaf, a byddant yn hollbwysig dan fy arweinyddiaeth i. Bydd metrigau a thargedau'n cael eu symleiddio ac yn canolbwyntio ar lai o fesurau mwy pwrpasol o brofiad a chanlyniadau'r claf yr ydym yn eu disgwyl.

Dylai GIG Cymru fod yn esiampl gydnabyddedig o arloesi a chynaliadwyedd, lle mae hyn wedi'i wreiddio ym mhopeth a wna, ym mhobman. Mae cleifion a'n gweithlu iechyd yn haeddu'r systemau mwyaf effeithlon a'r dechnoleg orau i sicrhau bod amser ein gweithlu yn gynhyrchiol ac yn cael ei dreulio lle mae'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf – gan gefnogi cleifion yn uniongyrchol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni ddysgu o'r dulliau gorau o wledydd, sectorau a gwasanaethau eraill, gan gyplysu hyn â chreadigrwydd a mewnwelediadau uniongyrchol ein gweithlu. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn rhannau o'r GIG a byddwn yn disgwyl, ac yn dod o hyd i ffyrdd o sicrhau, bod y datblygiadau arloesol gorau yn cael eu mabwysiadu'n gyflym ac yn eang.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau a chyflogwyr i fynd i'r afael â chyflog ac amodau staff. Mae'n ddisgwyliad rhesymol gan staff i gael eu talu'n deg, a byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas o fewn yr adnoddau sydd gennym ar gael i sicrhau hynny. Byddaf yn pledio'r achos i lywodraeth Lafur newydd y DU dylai cyllid ar gyfer setliadau cyflog yn Lloegr arwain at gyllid canlyniadol i Gymru.

Bydd dyfodol iechyd yn gyfoethog o ran data, yn bersonol ac yn ataliol: mae gennym ddyletswydd i'n dinasyddion i gyrraedd yno'n gyflym. Byddwn yn parhau i symud pŵer i chi fel cleifion, sydd mor aml yn arbenigwyr ar eich cyflyrau eich hun, gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yno i fod yn bartner i chi ac i'ch cynghori. Byddwn yn cynyddu ffocws y gwasanaeth iechyd yn raddol ar wasanaethau digidol ac atal personoledig sy'n

seiliedig ar ddata, gan ei symud tuag at fod yn wasanaeth lles meddyliol a chorfforol cyfannol yn hytrach na gwasanaeth salwch.

Mae cymdeithas dda yn un sy'n helpu pobl i wneud penderfyniadau cyfrifol yn ogystal ag un sy'n diwallu eu hanghenion gofal iechyd, ac felly byddwn yn chwilio am ffyrdd o gymell ymddygiadau cadarnhaol a blaenoriaethu ymdrech drawslywodraethol a llywodraeth leol ar y cyd i wella iechyd cyhoeddus Cymru dros genhedlaeth. Mae'n rhaid i ni hefyd ddefnyddio data a thechnoleg i ganolbwyntio, fel erioed o'r blaen, ar wella ansawdd a diogelwch gofal cleifion.

Rydym am weld estyniad ym maes deintyddiaeth y GIG, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ymestyn darpariaeth y GIG gan gynnwys newidiadau i'r contract, Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru a chynllun peilot deintyddion symudol. Byddwn yn archwilio sut y gallwn annog mentrau cymdeithasol fel cymdeithasau budd cymunedol fel dewisiadau amgen i bractisau preifat ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG.

Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus a niweidiol iechyd drwy gryfhau'r berthynas rhwng practis cyffredinol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Byddaf yn sefydlu is-bwyllgor penodol o'r Cabinet, y byddwn yn ei gadeirio fel Prif Weinidog, i ganolbwyntio ar waith trawslywodraethol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gyda chynrychiolaeth gan weinidogion perthnasol. Nid mater i'r GIG yn unig yw anghydraddoldebau iechyd - mae cydnabod effeithiau amddifadedd, cyflwr tai, cyflogaeth, addysg a mynediad at wasanaethau yn hanfodol i'n hymagwedd a thrwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd bydd hyn yn gwella ansawdd bywyd a lles pobl ond bydd hefyd arbed arian i'r GIG y gellir ei wario ar wasanaethau eraill. Bydd anghydraddoldebau corfforol ac iechyd meddwl yn flaenoriaethau cyfartal yn y gwaith hwn. Byddwn yn cydnabod heriau penodol iechyd meddwl mewn cymunedau gwledig ac amaethyddol.

Gan ddefnyddio data byddwn yn craffu lle nad yw gwasanaethau yn diwallu anghenion menywod, pobl anabl, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a phobl LHDT+ yn ddigonol. Byddwn yn gweithredu'n gyflym gyda byrddau iechyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a nodwyd. Byddwn yn ailffocysu ein hymagwedd at iechyd menywod, wedi'i llywio gan leisiau menywod gan gynnwys y rheini a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad diweddar y Senedd ar iechyd menywod. Byddwn yn ceisio darparu ymgynghoriad menopos gwarantedig mewn meddygfeydd lleol ar gyfer y rheini sy'n 40 oed.

Ni allai ein GIG weithredu heb ein system gofal cymdeithasol. Dan fy arweinyddiaeth, byddwn yn parhau â'n gwaith i sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, gyda pharch cydradd â'r GIG a byddwn yn hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd, gan archwilio perthnasoedd arloesol rhwng y GIG ac awdurdodau lleol i gyflawni hyn. Bydd archwilio modelau ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth gynnar ar y daith i Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Rwyf wedi eirioli ers amser maith dros ffocws ar y defnydd o dechnoleg yn y sector gofal. Dan fy arweinyddiaeth, byddwn yn cyflawni hyn, i gefnogi gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau, ac integreiddio â gwasanaethau iechyd. Mae'n rhaid i'n GIG a'n system ofal fod yn gyflogwyr o ddewis a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i'w cefnogi, wedi ymrwymo i arweinyddiaeth dosturiol fel y ffordd orau o gyflawni ar gyfer staff ac, yn y pen draw, ar gyfer cleifion. Byddwn yn llunio cynllun gweithlu hirdymor wedi'i ddilysu'n annibynnol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, gydag atebolrwydd clir ar gyfer ei gyflawni. Yn ogystal â chodi statws a pharch proffesiynol at ofal cymdeithasol, byddwn yn adeiladu ar ein cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl, yn ogystal â'u

cynnwys yn agosach wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Byddwn yn parhau â'n cynnydd tuag at ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal.

Yn hyn oll, byddwn yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd strwythurau ein system iechyd i gyflawni. Mae hyn yn cynnwys egluro rôl cyrff canolog a lleol, gonestrwydd ar bob lefel o'r gwasanaeth, a deialog gweithredol parhaus gyda dinasyddion yn genedlaethol ac yn lleol. Rhaid i ddinasyddion gael yr offer i ddeall sut i lywio a siapio'r GIG sydd mor annwyl iddynt.

## Fy mlaenoriaethau

- GIG yng Nghymru sydd wedi'i ariannu'n deg ac sy'n aros mewn dwylo cyhoeddus, am ddim ar y pwynt defnyddio.
- Parch cydradd ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol.
- Datblygu hymagwedd newydd at iechyd menywod, wedi'i llywio gan leisiau menywod.
- Gweledigaeth a strategaeth newydd, glir, hirdymor a osodwyd yn ganolog ar gyfer y degawd nesaf wrth i Cymru Iachach gael ei ddiweddaru, gyda nifer penodol o flaenoriaethau a thargedau ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol, a chynllun gweithlu i gyflawni hyn.
- Gweithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i ddatblygu modelau i sefydlu canolfannau orthopedig pwrpasol ar gyfer gosod pen-glin a chlun newydd yn gyflym er mwyn helpu i glirio'r ôl-groniadau a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.
- Bargen newydd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd â'r nod o gyflymu arloesedd a diwygio fel rhan o ailadeiladu ymddiriedaeth a chynnwys y cyhoedd yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â darpariaeth iechyd yn y dyfodol.
- Cryfhau atebolrwydd yn y GIG, gan edrych ar rolau Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth GIG Cymru a'r byrddau iechyd, wedi'u llywio gan ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Atebolrwydd.
- Datblygu dulliau i annog, nodi, ysgogi a chyflymu'r broses o fabwysiadu arloesedd effeithiol, gan adeiladu ar yr arfer da a welwn eisoes.
- Cefnogi'r GIG i ddod yn gyflogwr enghreifftiol, gyda'r cysylltiadau gweithlu a'r arferion datblygu staff mwyaf effeithiol.
- Parhau i nodi a cheisio mynd i'r afael â rhwystrau i ymrwymiadau amser gweithio meddygon teulu ac annog meddygon teulu cyflogedig fel opsiwn i gryfhau gwydnwch gwasanaethau.
- Cryfhau cydweithio rhwng byrddau iechyd, practisau meddygon teulu ac awdurdodau lleol yn strategol ac yn weithredol, er mwyn gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Gweithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon i wneud yn fawr o'r manteision iechyd meddwl a chorfforol o gymryd rhan.
- Bwrw ymlaen â datblygiad y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru er budd defnyddwyr gwasanaethau a'r gweithlu, gan adeiladu ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a gwaith y Fforwm Gwaith Teg ar gydfargeinio yn y sector.
- Cefnogi awdurdodau lleol i ymestyn darpariaeth gyhoeddus uniongyrchol a gofal cydweithredol dros amser.
- Cynnal a datblygu gwaith ar ein hymrwymiad i ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal.

# Dysgu gydol oes

Addysg dda yw'r ased mwyaf gwerthfawr y gallwn ei roi i unrhyw un yn y byd sydd ohoni. Buddsoddi mewn addysg yw'r polisi economaidd gorau a dyma'r polisi cyfiawnder cymdeithasol gorau.

Mae gallu pob plentyn i ddyheu'n gyfartal. Felly byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir – oherwydd dyna'r peth iawn i'w wneud, a'r buddsoddiad gorau yn ein dyfodol fel cenedl. Mae hyn yn golygu dechrau gyda'r profiad mamolaeth ac yna'n sicrhau bod y blynyddoedd cynnar yn fwy o flaenoriaeth nag erioed o'r blaen. Ein nod dros y tymor hir yw y gall pob plentyn ifanc, lle bynnag y maent yn byw, elwa ar fynediad at ofal a chymorth plant o safon, gyda chymorth rhianta. Byddwn yn adeiladu tuag at y nod uchelgeisiol hwn drwy ymestyn y Cynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg yn gynyddol tuag at y nod o ddarpariaeth gyffredinol, gan ddechrau drwy gyflymu ein darpariaeth i blant dwy oed cyn gynted ag y bydd adnoddau'n caniatáu.

Bydd gennym ddisgwyliadau uchel, anymddiheurol, ym myd addysg. Byddwn yn codi safonau llythrennedd a rhifedd fel y ffordd orau o gael mynediad at gyfoeth ein cwricwlwm newydd, a chyfleoedd mewn bywyd. Byddwn yn sicrhau bod gan bob ysgol arbenigwr cydnabyddedig mewn technegau llythrennedd a rhifedd. Mae'n rhaid i'n hysgolion fod yn lleoedd o ragoriaeth a chynhwysiant. Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn addysg. Gallwn godi safonau drwy leihau llwyth gwaith diangen, fel rwyf wedi'i wneud fel Gweinidog, ynghyd ag undebau a chynghorau, gan ryddhau a chefnogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i wneud yr hyn y maent yn rhagori arno - canolbwyntio ar anghenion eu dysgwyr a darparu addysgu ardderchog.

Byddwn yn adeiladu ar ein cwricwlwm cynhwysol i sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn perthyn ac yn teimlo'n gartrefol yn yr ysgol, a pharhau, ac yn parhau gyda'n gwaith i fynd i'r afael â'r pwysau y mae merched yn enwedig yn eu hwynebu oherwydd aflonyddu mewn cymdeithas.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith amlasiantaeth i ymateb i her absenoldeb mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd a rhoi pob ysgol ar lwybr i ddod yn ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Bydd ein cynllun i gau'r bwlch cyrhaeddiad mewn ysgolion yn cael ei ddatblygu ymhellach, gan gydnabod – ochr yn ochr â'n hymrwymiad i gydraddoldeb rhwng y rhywiau – fod y dystiolaeth ar gyfer yr heriau cyrhaeddiad sy'n wynebu rhai bechgyn dosbarth gweithiol yn arbennig yn gofyn am ddulliau newydd, pwrpasol. Rydym hanner ffordd drwy drawsnewid anferthol mewn addysg anghenion dysgu ychwanegol a byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau ymagwedd gyson, hyfforddiant priodol, ac adolygiad ariannu.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth technoleg addysg wedi'i diweddaru, gan ystyried ehangu buddsoddiad mewn technoleg ysgolion, a datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial. Dylai addysg Gymraeg fod ar gael i unrhyw un sy'n ei dewis, a byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei hyrwyddo gan awdurdodau lleol fel opsiwn dengar ac ymarferol. Dylai bod gan bob disgybl fynediad at gerddoriaeth, trwy'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a'n nod yw eu bod i gyd yn gallu profi perfformiad byw cyn gadael yr ysgol.

Byddwn yn ymestyn cyrhaeddiad rhaglen Robert Owen yr oeddwn yn falch o'i chyflwyno mewn ysgolion, fel bod rhagor o bobl ifanc yn dysgu am fentrau cydweithredol a'r rôl y maent wedi'i chwarae yn hanes Cymru, ac y byddant yn ei chwarae yn nyfodol ein cenedl, ac yn ehangu ein rhaglen arloesol, Undebau a Byd Gwaith.

Fel gweinidog addysg, cyflwynais ein rhaglen prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, ar y cyd ag awdurdodau lleol, ehangais ar ein Grant Hanfodion Ysgol, a chyflwynais reolau ar gyfer gwisgoedd ysgol rhatach. Cynyddais y Lwfans Cynhaliaeth Addysg hefyd – Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig i wneud hynny. Dan fy arweinyddiaeth, byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i'r egwyddor na ddylai modd fyth fod yn rhwystr i astudio.

Cyflwynais hefyd y diwygiadau mwyaf pellgyrhaeddol i addysg ôl-16 – ym maes addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, y gweithle a dysgu oedolion yn y gymuned – mewn cenhedlaeth, gan roi fy ngweledigaeth ar gyfer sector bywiog, gydag ymrwymiad i ddysgu gydol oes yn ganolog iddo, yn gyfraith am y tro cyntaf.

Byddwn yn adeiladu ar ein hymrwymiad cryf i addysg bellach, gan ddiwygio cymwysterau galwedigaethol gyda llwybrau dilyniant gwell, wedi'u llywio gan gynllun addysg a hyfforddiant galwedigaethol newydd, ac asesiad cenedlaethol parhaus o anghenion sgiliau'r dyfodol sy'n cyd-fynd â'n polisi economaidd. Byddwn yn ceisio ehangu'r ddarpariaeth prentisiaethau a blaenoriaethu hyn wrth i adnoddau ddod ar gael, ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith i wella'r cysylltiadau rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr.

Mae'n rhaid i Gymru fod yn genedl ail gyfle, lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu. Mae ehangu mynediad at ddysgu oedolion yn y gymuned, a datblygu Cwricwlwm Dinasyddion yn rhan allweddol o hyn, ond mae'n rhaid i ni hefyd wella mynediad at gymorth oedolion a rhifedd ac adeiladu ar yr estyniad sydd i ddod i'r ddarpariaeth ôl-16, dros amser. Dylai bod gan bob dinesydd o Gymru gyfle i ail-ddechrau eu gyrfa ar unrhyw adeg yn eu bywyd, gan wybod wrth i ni symud i mewn ac allan o wahanol fathau o waith, sy'n gofyn am sgiliau newydd nad oes gennym efallai eto, y bydd y wladwriaeth yn sicrhau bod gennym y gefnogaeth sydd ei hangen arnom ar hyd y llwybr hwnnw. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynyddu cyllid i gefnogi dysgu gydol oes dros amser, fel y bydd adnoddau'n caniatáu, a datblygu hawl i ddysgu gydol oes.

Mae ein prifysgolion yn chwarae rôl enfawr yn ein tirwedd addysgol, economaidd a diwylliannol. Byddwn yn annog rhagor o gydweithio rhwng addysg uwch ac addysg bellach er mwyn sicrhau darpariaeth hyblyg, hygyrch i ddysgwyr. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i gyfundrefn flaengar o ran cymorth i fyfyrwyr, fel bod y brifysgol yn hygyrch i bawb a all elwa. A byddwn yn cefnogi ein prifysgolion i gael gafael ar gyllid ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol, ac i fanteisio ar fynediad at raglen cydweithrediad ymchwil fwyaf y byd, Horizon Ewrop, yn dilyn ailfynediad swyddogol y DU eleni.



## Fy mlaenoriaethau

- Cynyddu'r gyfran o gyllideb Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gwario ar ysgolion yn raddol.
- Ymestyn y Cynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg yn gynyddol tuag at y nod o ddarpariaeth gyffredinol, gan ddechrau drwy gyflymu ein darpariaeth i blant dwy oed cyn gynted ag y bydd adnoddau'n caniatáu.
- Cefnogi gwaith y Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol amlasiantaeth, sydd newydd ei sefydlu, i wella presenoldeb mewn ysgolion a chynnal ein cefnogaeth i swyddogion cyswllt teuluol ac ymgysylltu gwell â rhieni.
- Bwrw ymlaen â'r adolygiad sy'n mynd rhagddo o roi diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol ar waith.
- Ehangu llwybrau pellach i addysgu er mwyn sicrhau'r gronfa ehangaf bosib o dalent.
- Symleiddio a chryfhau ymhellach ein cynnig dysgu proffesiynol i weithwyr addysg proffesiynol.
- Yn dilyn yr adolygiad diweddar, symleiddio ac ailffocysu gwasanaethau gwella ysgolion ledled Cymru, gyda rhagor o waith ysgol i ysgol, partneriaethau lleol a fframwaith cenedlaethol cryf.
- Alinio ein polisi economaidd, ein polisi sgiliau a'r diwygiadau i gymwysterau galwedigaethol mewn un continwwm cydlynol, sy'n canolbwyntio ar sectorau'r dyfodol.
- Gweithio tuag at Warant Llythrennedd a Rhifedd Oedolion, gyda chefnogaeth darpariaeth sgiliau sylfaenol wedi'i hariannu.
- Adfer cyllid i'n rhaglen brentisiaethau, ac ehangu'r ddarpariaeth gradd a phrentisiaeth uwch, cyn gynted ag y bydd adnoddau'n caniatáu.
- Cynnal ein hymrwymiad i'r rhaglen cymorth mwyaf blaengar yn y DU ar gyfer myfyrwyr ac archwilio diwygio'r cymorth i fyfyrwyr ôl-16 i fel sail ar gyfer mynediad at ddysgu gydol oes hyblyg ar bob lefel, gan gynnwys darpariaeth fodiwlaidd.
- Meithrin rhagor o gydweithio rhwng prifysgolion a sefydliadau addysg bellach.



# Mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur

Fel Prif Weinidog byddaf yn sicrhau bod Cymru yn parhau â’i harweinyddiaeth wrth fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur ar y llwyfan lleol a byd-eang yn ystod y degawd hwn o weithredu.

Rydym yn gweld canlyniadau dinistriol newid yn yr hinsawdd o’n cwmpas ym mhobman – tywydd poeth eithafol, stormydd a llifogydd. Maent yn effeithio arnom ni i gyd, ond y rheini sydd â’r lleiaf o adnoddau yr effeithir arnynt waethaf. Felly, mae chwarae rôl arweiniol wrth fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd yn sylfaenol i’n synnwyr o gyfiawnder yn ogystal â’n cyfrifoldeb i genedlaethau’r dyfodol.

Er mwyn llwyddo, mae’n rhaid i ni fynd â phobl gyda ni ar y daith hon. Gallwn wneud hynny drwy adael i bobl weld y cyfleoedd y mae’n eu cynnig ochr yn ochr â’r newidiadau y mae’n gofyn amdanynt, fel bod beichiau a chyfleoedd y newid enfawr hwn yn cael eu rhannu’n deg – drwy gyflawni “pontio teg”. Byddaf yn ymgysylltu â gwaith grŵp her sero net 2035 sy’n edrych ar yr effaith ar gymdeithas a sectorau o’n heconomi a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau andwyol, gan gynnwys sut y rhennir y costau a’r buddion yn deg. Byddwn yn defnyddio ein holl ysgogiadau economaidd i gefnogi swyddi gwyrdd newydd a byddwn yn ehangu’r manteision i gymunedau o gael cynhyrchu a thrawsyrru ynni adnewyddadwy ar garreg eich drws. Byddwn yn archwilio llwybrau i ehangu cyfranddaliadau cymunedol ym mhob prosiect ynni adnewyddadwy, yn pwysleisio mannau gwyrdd cymunedol hygyrch ac yn gwneud tai yn wyrddach, gan ehangu tai arloesol a rhaglenni ôl-osod er mwyn optimeiddio.

Yn hyn oll, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y ffyrdd gorau y gall Cymru gyfrannu at ymdrechion byd-eang brys sy’n cael yr effaith fwyaf, gan ddefnyddio mantais gymharol ein daearyddiaeth. Rydym wedi bod yn ganolfan fyd-eang ar gyfer ynni o’r blaen - a gallwn fod eto. Y tro hwn gydag ynni adnewyddadwy. Yn benodol, cenedl arfordirol yw Cymru, ac mae’n rhaid i ni fanteisio ar bŵer a chyfoeth ein heconomi forol – byddwn yn archwilio’n gyflym ffurfiau newydd o ynni’r llanw a’r tonnau ac ynni gwynt ar y môr gyda chynnig rhagweithiol â ffocws i fuddsoddwyr mewn ynni adnewyddadwy. Mae ein harfordir ac aber afon Hafren yn cynnig cyfleoedd penodol, a byddwn yn cefnogi ein porthladdoedd yng Nghymru i wneud yn fawr o’r cyfleoedd y mae’r Môr Celtaidd yn eu cynnig, yn ogystal â sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gynnal y diwydiant byd-eang newydd ar gyfer gwynt arnofiol. Mae gan ein gwaith ym maes gwyddoniaeth ac ymchwil y potensial i gynyddu ein heffaith trwy drosglwyddo ein darganfyddiadau a’n datblygiadau arloesol am ddim i’r byd. Mae’r holl gamau gweithredu hyn yn dod â chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth foddhaol, gynaliadwy a datblygu sgiliau newydd.

Mae hwn yn argyfwng natur yn ogystal â hinsawdd, a natur yw ein cynghreiriad wrth fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd. Rwy’n falch o’r gwaith rydym wedi’i wneud i edrych ar sut y gall Cymru weithredu’r targed i ddiogelu 30% o’r tir, dŵr croyw a’r cefnfor erbyn 2030. Byddwn yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys sicrhau y cyflwynir Bil i’r Senedd a fydd yn gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, cryfhau llywodraethu amgylcheddol

yng Nghymru drwy sefydlu corff newydd i oruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol, a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol. Byddwn yn parhau â phroses yr uwchgynhadledd ansawdd dŵr gan gynnwys gweithredu canlyniad prosiect gwella afon Teifi, O'r Tarddle i'r Môr, a sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymhwyso yn eang.

Rydym wedi gwneud gwaith da fel llywodraeth i fynd i'r afael â'r risgiau o domenni glo, er gwaethaf ymwrthodiad llywodraeth Geidwadol y DU â chyfrifoldeb. Byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau yn y cymoedd i adeiladu ar y gwaith da hwn.

Mae ein heconomi wledig yn hollbwysig i'n dyfodol, ein heconomi a'r iaith Gymraeg. Rydym yn cydnabod yr heriau penodol y mae'n eu hwynebu mewn cyfnod o newid, wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ac addasu i realiti newydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn cyflawni model modern, cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth a bywyd gwledig, gan ddefnyddio technoleg i gynyddu cynhyrchiant a chryfhau cyflenwad bwyd lleol, cynaliadwy o'r fferm i'r fforc i Gymru. Mae ymestyn y gwaith presennol ar glystyrau a rhwydweithiau yn rhan bwysig o hyn. Byddwn yn annog cyflenwad o fwyd lleol i ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn bachu ar y manteision i bobl a chynhyrchwyr lleol. Mae arfer da eisoes yn bodoli mewn rhannau o Gymru a thu hwnt – mae'n rhaid i ni ei ledaenu'n eang. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr a chymunedau gwledig i gefnogi'r newid i ffurfiau mwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar o ddefnydd tir, gan gyflwyno camau nesaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n rhaid adlewyrchu ein tosturi fel gwlad yn ein hymrwymiad i les anifeiliaid. Byddwn yn adolygu trwyddedu cŵn i helpu i ariannu mwy o adnoddau gorfodi, a byddwn yn cyflwyno gwaharddiad cynyddol ar rasio milgwn. Byddwn yn cynnal ein gwrthwynebiad i'r erledigaeth farbaraidd ar anifeiliaid gwyllt ac yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i gryfhau'r Ddeddf Hela a'r Ddeddf Cŵn Peryglus.



***Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i ni fynd â phobl gyda ni ar y daith hon.***

# Fy mlaenoriaethau

- Cynnal y gwaharddiad ar echdynnu tanwydd ffosil a ffracio yng Nghymru a chefnogi gwaredu cronfeydd pensiwn cyhoeddus o fuddsoddiadau yn y sectorau hyn.
- Cyflwyno targed statudol i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050.
- Sicrhau bod o leiaf 30% o'n tir, ein hafonydd a'n moroedd yn cael eu diogelu, eu cysylltu, eu hadfer, a'u rheoli'n gadarnhaol i alluogi adferiad byd natur yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru.
- Cynnal ac ehangu ein prosiectau adfer mawndiroedd ac adfer morwellt a gydnabyddir yn fyd-eang.
- Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd a chyflwyno Bil i wreiddio mesurau diogelu amgylcheddol yng nghyfraith Cymru.
- Ymgysylltu â gwaith y Grŵp her hinsawdd sero net 2035.
- Ailymrwymo i weithredu'r cyllidebau carbon presennol a'r gyllideb nesaf.
- Ymestyn cyfranddaliadau cymunedol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Ehangu ôl-osod ynni effeithlon ar gyfer cartrefi ac adeiladau presennol.
- Cymhwyso'r gwersi o gynllun peilot afon Teifi, O'r Tarddle i'r Môr, a gweithio gyda'n partneriaid awdurdod lleol ar liniaru llifogydd.
- Bwrw ymlaen â'n gwaith hanfodol ar ddiogelwch tomenni glo, gan gynnwys pasio a gweithredu fframwaith llywodraethu a deddfwriaethol newydd, gweithio gyda Llywodraeth Lafur newydd yn y DU, a pharhau i gefnogi cynghorau ar waith diogelwch ac adfer.
- Dwyn ymlaen yr haenau sy'n weddill o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn gynted ag y bo modd.
- Annog arloesedd technolegol yn yr economi wledig.
- Diwygio trwyddedu cŵn a gwahardd rasio milgwn yn raddol.



# Lle i fyw a gweithio

## Mae cartref gweddus mewn cymuned sydd â chysylltiadau da yn ddisgwyliad sylfaenol o fywyd modern.

Dylai fod gan bawb fynediad at dai o ansawdd da yn eu cymunedau lleol, fel hawl sylfaenol. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai rhent cymdeithasol i bobl sydd â'r angen mwyaf am dai, er mwyn lleihau tlodi, gwella iechyd ac ysgogi twf economaidd. Mae rhaglen waith enfawr eisoes ar y gweill. Byddwn yn dod â momentwm newydd i'n hymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol, gyda phob adeilad newydd yn garbon isel, gan ddefnyddio dulliau tai arloesol. Byddwn yn dileu'r rhwystrau sy'n atal tai cymdeithasol o ran datblygu adnoddau ar fyrder, gan gynnwys drwy gynyddu'r gallu i gynllunio'n lleol a chaniatáu dyluniadau adeiladu sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw ar dir a neilltuwyd ar gyfer tai. Byddwn yn ysgogi meddwl arloesol ar berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru drwy sefydlu comisiwn asedau cymunedol a thair ymddiriedolaeth tir cymunedol erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith sydd ar y gweill ar ddiwygio lesddaliad a chyfunddaliad.Rwy'n falch o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i wneud rhentu yn ddewis cadarnhaol yng Nghymru: yn awr rhaid inni sicrhau bod rhenti'n deg, a byddaf yn archwilio dulliau newydd o ymdrin â rhenti fforddiadwy i bobl leol ochr yn ochr â'n gwaith ar hawl i dai digonol.

Yn ystod y pandemig, mabwysiadodd Cymru bolisi “pawb i mewn”, gan ddarparu llety i bawb oedd yn ddigartref er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel. Yn wahanol i'r Torïaid yn Lloegr, nid ydym erioed wedi troi ein cefnau ar y polisi hwn. Byddwn yn dwysáu ein hymdrechion i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a diogelu gwasanaethau cymorth tai hanfodol, gan gydnabod yr effaith anghymesur ar fenywod sy'n agored i niwed a phobl ifanc yn benodol.

Dylai Cymru fod yn genedl o gymunedau ffyniannus, lle gall pobl fforddio byw a gweithio. Mewn trefi, mae hyn yn golygu cryfhau canol ein trefi, denu pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymddeol, gyda gwasanaethau cyhoeddus, a swyddfeydd a rennir - nifer hanfodol yr ymwelwyr i fusnesau annibynnol. Yn ein hardaloedd gwledig, mae'n golygu cefnogi pobl ifanc i barhau i fyw - neu ddychwelyd - i'w cymunedau gwledig drwy ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i le i fyw. I bobl hŷn sy'n profi unigrwydd, un o heriau cymdeithasol mwyaf ein hoes, mae'n golygu gwasanaethau ac asedau cymunedol sy'n fforddiadwy, sy'n pontio'r cenedlaethau ac sydd â chysylltiadau da drwy drafnidiaeth gyhoeddus. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n rhaid i ni ystyried sut i dynnu cenedlaethau ynghyd.

Mae angen rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n galluogi pobl i deithio'n gyfleus, yn fforddiadwy ac yn gyfforddus, ar gymunedau ffyniannus, un sy'n cefnogi ein nodau ffyniant a chynaliadwyedd. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, wrth fwrw ymlaen yn gyflym â chynlluniau i fynd i'r afael â'r heriau penodol sydd gennym yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru. Un o'r rhwystrau mwyaf i drafnidiaeth integredig yw'r rhwydwaith bysus sydd wedi'i breifateiddio. Byddwn yn rhoi pobl o flaen elw drwy roi model newydd ar waith yn gyfreithiol ar gyfer ail-reoleiddio gwasanaethau bysus yng Nghymru, a fydd yn caniatáu i ni weithio gydag awdurdodau lleol i ddylunio'r rhwydweithiau bysus y mae eu hangen ar eu cymunedau a rhoi'r contractau sydd eu hangen arnom ar waith i'w cyflawni. Byddwn yn sicrhau

bod prisiau tocynnau ar ein bysus yn deg, er mwyn annog rhagor o deithwyr ar fysus. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ceisio cytuno ar gronfa isadeiledd trafnidiaeth ddatganoledig ar gyfer gwasanaethau rheilffordd a bysus integredig gyda llywodraeth Lafur newydd yn y DU, gan wneud defnydd o gyfran deg Cymru o fuddsoddiad HS2 o'r diwedd. Byddwn yn adeiladu ar ein hymrwymiadau presennol i annog rhagor o bobl i ddefnyddio bysus gwyrdd. Byddwn yn gweithredu i sicrhau bod ein strategaeth ar gyfer isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn parhau i fod yn addas at y diben.

Mae llywodraeth Lafur Cymru wedi cymryd camau breision i annog cerdded, beicio a defnyddio sgwteri fel rhan o bolisi trafnidiaeth llesol uchelgeisiol. Rwyf wrth fy modd yn beicio fy hun. Mae'r egwyddorion hyn wrth wraidd strategaeth Llwybr Newydd a bydd llywodraeth yr wyf yn ei harwain yn dwysáu ymdrechion i ehangu ar gyfleoedd teithio llesol, er budd yr amgylchedd a lles personol.

Bydd y terfyn cyflymder 20mya diofyn newydd ar ffyrdd yng Nghymru yn arwain at ffyrdd mwy diogel, bydd yn cefnogi ein huchelgeisiau newid hinsawdd a bydd yn lleihau pwysau ar y GIG. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r adolygiad gweithredu er mwyn sicrhau bod y canllawiau cywir ar waith i adlewyrchu'r fframwaith cenedlaethol, a galluogi adborth gan y cyhoedd ar ddynodiadau yn eu hardaloedd lleol i gael eu hystyried.



## Fy mlaenoriaethau

- Cyflwyno tocynnau bws symlach a thecach i annog teithio wrth i ni ail-reoleiddio'r rhwydwaith bysus, er mwyn gwella cysylltiadau trafnidiaeth ledled Cymru a chefnogi cymunedau gwledig yn arbennig lle mae gwasanaethau bysus yn dirywio.
- Ailddatgan yr ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol, gyda phob adeilad newydd yn garbon isel.
- Dwysáu ein hymdrechion i ddefnyddio tai gwag unwaith eto mewn ffordd fuddiol.
- Archwilio cynllun Rhentu i Berchnogi newydd.
- Dileu rhwystrau i ddarparu rhagor o dai cydweithredol.
- Cyflymu penderfyniadau cynllunio sy'n addas i gymunedau drwy ddatblygu adnoddau yn ein hadrannau cynllunio a chyflwyno llyfrau patrwm i'w cymeradwyo'n gynt.
- Sefydlu comisiwn asedau cymunedol a thair ymddiriedolaeth tir cymunedol cyn diwedd tymor y Senedd hon i gefnogi adeiladu tai cymunedol.
- Parhau i weithio tuag at yr hawl i dai digonol yn ogystal â chyfres genedlaethol o delerau ac amodau ar gyfer atal digartrefedd a chymorth tai ar gyfer gweithwyr sector, y cytunwyd arnynt drwy gydfargeinio.
- Parhau â'n hymdrechion i wneud digartrefedd yng Nghymru yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac nad yw'n cael ei ailadrodd a gweithio gyda Cymorth Cymru i sicrhau bod ein gwasanaethau cymorth tai hanfodol yn cael eu hariannu'n ddigonol.
- Archwilio cymorth i helpu pobl i brynu eu cartrefi eu hunain mewn ardaloedd lle mae ail gartrefi yn gyffredin.
- Hwyluso'r gwaith o gyflawni cynigion y Metro a'r Comisiwn Burns i leddfu'r pwysau ar yr M4 o gwmpas Casnewydd a choridor Gogledd Cymru.
- Bwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer bysiau a threnau integredig, fel prosiect Abertawe ledled Cymru.
- Parhau i adolygu ein strategaeth isadeiledd gwefru cerbydau trydan i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddigon uchelgeisiol i ddiwallu anghenion y dyfodol.
- Cefnogi pobl yn rhagweithiol i ddewis teithio llesol lle bynnag y bo modd.



# Gwneud Cymru yn decach

Hoffem weld Cymru o gyfiawnder a charedigrwydd, lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag bo'u cefndir, a lle gall pob un ohonom fyw'r bywyd yr ydym am ei fyw, heb ofn.

Mae'n rhaid i ddiddymu tlodi fod wrth wraidd ein cenhadaeth genedlaethol. Yr anghyfiawnder diffiniol yn y gymdeithas sydd ohoni yw effaith tlodi ac ansicrwydd economaidd. Mae bron i 30% o blant Cymru yn byw mewn tlodi er gwaethaf ymdrechion cyson y llywodraethau olynol. Dyma ganlyniad uniongyrchol i bolisïau'r Ceidwadwyr yn San Steffan. Yr her foesol ac ymarferol bwysicaf i ni heddiw yw torri'r patrwm hwn.

Nid yw'r holl ysgogiadau sydd eu hangen arnom i leihau tlodi'n ddifrifol yn ein dwylo ni, felly byddwn yn ceisio negodi cytundeb â Llywodraeth Lafur newydd yn y DU i bob partner ddilyn y polisïau sydd eu hangen arnom er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn. Byddwn hefyd yn diffinio'r angenrheidiau sydd eu hangen ar ddinasyddion i oroesi ac i ffynnu yn y byd sydd ohoni, a chwilio am ffyrdd i'w gwneud - o wisg ysgol i fwyd maethlon i dai - yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb, gan ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio a'n hysgogiad economaidd.

Yn hyn oll, swyddi da a chynhyrchiant economaidd cynaliadwy cynyddol yw'r llwybrau mwyaf dibynadwy o hyd i ddileu, yn hytrach na lliniaru tlodi, a rhaid i ni ganolbwyntio arnynt os ydym am dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a thynged. Heb hyn, ni all polisi cymdeithasol, waeth pa mor flaengar, fyth fod yn ddigon.

Byddwn yn archwilio sefydlu rhaglen arweinyddiaeth ieuenctid genedlaethol i annog pobl ifanc na fyddent fel arall yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau arwain.

Mae gwaith teg yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer economi Cymru. Mae angen ymagwedd gydlynol arnom sy'n lleihau'r risg o wthio pobl i mewn i waith annheg. Byddwn yn ceisio adeiladu ar fewnbwn y Comisiwn Gwaith Teg ac archwilio'r posibilrwydd o ddatganoli gweinyddu budd-daliadau i gefnogi hyn. Byddaf yn penodi Gweinidog dros Waith yn Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i hawliau dynol pobl yng Nghymru a byddwn yn ceisio adlewyrchu hyn yn gyfreithiol. Rydyn ni i gyd yn gyfartal. Byddwn bob amser yn sefyll gyda'r rheini sy'n wynebu brwydrau i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu neu ddioddefaint o unrhyw fath - boed ar sail hil, anabledd, oed, rhyw, crefydd, hunaniaeth rhywedd, neu gyfeiriadedd rhywiol. Byddwn yn parhau i gyflawni ein Cynllun Gweithredu LHDTC+ uchelgeisiol, gan gynnwys gweithredu i wahardd arferion trosi hyd at eithaf ein pwerau. Byddwn yn cynnal cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb ar gyfer pobl draws ac i gefnogi hunanddiffinio. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn weithred o arweinyddiaeth ar y cyd gyda chymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a byddwn yn adeiladu arno, gan ddatblygu targedau newydd ymestynnol i weithio tuag at y nod hwnnw dros y blynyddoedd i ddod. Ac wedi'i lywio gan waith y Tasglu Hawliau Anabledd, byddwn yn gweithio i gau'r bwlch cyflogaeth anabledd ac yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ymgorffori'r UNCRDP yng nghyfraith Cymru.

Byddaf yn penodi llywodraeth lle mae o leiaf hanner y gweinidogion yn fenywod. Byddwn yn adeiladu ar waith arloesol Llywodraeth Lafur Cymru i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol,

gan gydnabod bod hyn yn drawsbynciol a bod angen gweithredu mewn meysydd polisi eraill, fel cymorth tai. Rydym wedi gweld nifer o enghreifftiau dybryd mewn cyrff cyhoeddus yn ddiweddar o ddiwylliannau nad ydynt yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb menywod. Ni ddylid goddef ymddygiad gwahaniaethol a byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i newid hyn.

## Fy mlaenoriaethau

- Datblygu cynllun "Rhyddid rhag Tlodi", ar y cyd â llywodraeth Lafur newydd yn y DU, gyda ffocws arbennig ar dlodi plant.
- Datblygu Bil Hawliau Dynol yng Nghymru, sy'n diogelu hawliau dynol yng Nghymru yn seiliedig ar Gonfensiynau'r CU, hyd eithaf ein pwerau datganoledig.
- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau diwylliant o barch a chydraddoldeb at fenywod.
- Datblygu gwaith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu i wreiddio Gwaith Teg ar draws Cymru.
- Yn dilyn cyflwyno'n llwyddiannus prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, byddwn yn gweithio i annog rhagor o ddisgyblion i gymryd rhan, a phan fydd adnoddau'n caniatáu, byddwn yn adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.
- Defnyddio pob cam o fewn ein grym i wrthwynebu arferion trosi a datblygu targedau newydd ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+.
- Cyd-ddatblygu cyfres nesaf ymestynnol o dargedau ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a chyflymu gwaith i sicrhau bod penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn fwy cynrychioliadol o'n cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Dysgu Proffesiynol ar Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth a lansiwyd gennym ar gyfer ysgolion, byddwn yn ceisio datblygu rhaglenni cyfatebol i gefnogi meysydd eraill o arfer cynhwysol.
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru ac ailddyblu ein hymdrechion i gau'r bwlch cyflogaeth anabledd.
- Gweithio i gynyddu cynhwysiant digidol ar sail egwyddorion isafswm safon byw ddigidol.



# Cryfhau ein cymuned, ein democratiaeth, a'n cyrhaeddiad byd-eang

## Mae cymuned ac undod wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu'n Gymraes, gartref a thramor.

Ein safbwynt Cymreig ar gymdeithas yw bod gennym oll gyfraniad i'w wneud yn ein cymunedau, ac y dylem wneud popeth yn ein gallu i chwarae ein rhan.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud eisoes i gryfhau cymunedau drwy ehangu defnydd cymunedol o asedau lleol a chefnogi mentrau perchnogaeth gymunedol lle mae'r cyfoeth a grëir yn cael ei gadw a'i rannu'n lleol. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaeth bancio cymunedol.

Byddwn yn adeiladu ar y bartneriaeth gadarnhaol â llywodraeth leol, gan weithio i ddyfnhau'r ymagwedd gydweithredol ac adeiladol sy'n cyflawni orau ar gyfer pobl Cymru. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod cyllid llywodraeth leol yn cael ei osod ar lefel sy'n galluogi cynghorau i fod yn wydn ac i ddarparu'r gwasanaethau lleol y mae pobl yn dibynnu cymaint arnynt, gan gydnabod yn llawn y pwysau aruthrol sydd ar gynghorau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol eithriadol. Byddwn yn anelu at symleiddio grantiau yn gyffredinol, fel yr ydym wedi'i wneud eleni gyda grantiau addysg. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n elwa ar ymrwymiad llywodraeth Lafur yn y DU i gefnogi rhaglen ar raddfa fawr i fewnoli gwasanaethau. Byddwn yn cynnal adolygiad o gyllid ar gyfer gwasanaethau tân ac achub.

Byddaf yn rhoi achos angerddol dros ddatganoli pwerau pellach i Gymru, wedi'i ysgogi gan ymrwymiad i ganlyniadau gwell, yn hytrach na chyfansoddiad anghyflawn. Mae Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru yn rhoi dadl gymhellol dros ddatganoli cyfiawnder, er budd canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. Byddai rheolaeth dros y ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu yn ein galluogi i liniaru tlodi ac integreiddio cymorth â rhaglenni tai a chyflogadwyedd. Mae hyn yn sylfaenol i'm gweledigaeth o ddyfodol Cymru fel cenedl lewyrchus. Byddaf yn dadlau'n gryf dros gyllid teg i Gymru a diwygio fformiwla Barnett, a phwerau benthyca darbodus i fuddsoddi mewn prosiectau i wella bywydau pobl. Byddwn yn pwyso am ddiwygio confensiwn Sewel, gyda sail gyfreithiol na fydd Senedd y Deyrnas Unedig fyth yn deddfu mewn meysydd datganoledig, heb gydsyniad datganedig y Senedd. Mae hyn wrth wraidd ein gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer dyfodol democratiaeth yng Nghymru.

Wrth i ni edrych i ddyfodol datganoli, mae'r un mor bwysig i ni ddadlau dros ddatganoli pwerau *yng* Nghymru ag ydyw i Gymru, fel yr addewais pan lansiais fy ymgyrch. Gwyddom gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill pa mor bwysig y gall penderfyniadau rhanbarthol dros ddatblygu economaidd fod, er enghraifft. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol ac eraill ledled Cymru i gyd-ddatblygu model symlach sy'n bodloni'r awydd clir am wneud penderfyniadau'n fwy lleol, drwy ddatganoli rhagor o bwerau i lywodraeth leol, gan ddechrau gyda Gogledd Cymru.

Byddwn yn bwrw ymlaen â diwygio'r Senedd ar gyfer 2026, fel bod pobl Cymru yn cael y ddemocratiaeth gryfach y maent yn ei haeddu –

a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu amrywiaeth y Gymru fodern.

Mae ein creadigrwydd fel cenedl yn rhan bwysig o'n hunaniaeth genedlaethol – mae ein celfyddydau, ein diwylliant a'n diwydiannau creadigol yn gaffaeliad mawr i ni, i'n lles a'n heconomi. Fel gweinidog addysg, rwyf wedi bod yn falch o roi cyfle i holl blant ysgolion cynradd Cymru ddysgu i ganu offeryn cerdd am ddim, a byddwn yn gweithio'n galed i ehangu'r cyfleoedd sydd gan ein pobl ifanc i ddatblygu cariad gydol oes at ein celfyddydau a'n diwylliant. Byddwn yn parhau â'n Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, yr oeddwn yn falch o'i lansio.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o ddatblygu strategaeth diwylliant ffres, gan sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol ym mhob rhan o Gymru yn chwarae eu rhan wrth gyflawni ein gweledigaeth ddros dyfodol Cymru. Byddwn yn cefnogi Cymru Greadigol i ddatblygu ein diwydiannau creadigol, gan gefnogi talent newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i arddangos Cymru fel gwlad cân a chreadigrwydd ar lwyfan ac ar sgrin. Dylai fod gan blant a phobl ifanc heddiw a chenedlaethau'r dyfodol werthfawrogiad dwfn o hanes ein cenedl, felly byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Cadw i warchod treftadaeth Cymru.

Byddaf yn gweithio gyda llywodraeth Lafur newydd yn y DU i drawsnewid sut mae Cymru'n cael ei marchnata i'r byd, fel cenedl yn ein rhinwedd ein hunain ond hefyd fel rhan o frand cryfach a mwy unedig Visit Britain.

Mae Cymru yn genedl chwaraeon falch. Felly byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon, er mwyn helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o athletwyr elit ac annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

Mae'r Gymraeg hefyd yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud ni'n Gymry – p'un a allwn ddweud gair neu ddau yn unig, neu ei siarad yn hyderus, mae'n perthyn i ni i gyd, ac yn ein helpu ni i gyd i berthyn. Mae bod yn siaradwr Cymraeg yn bwysig i mi ac rwy'n annog unrhyw un sydd eisiau, i ddysgu. Bydd croeso cynnes i chi. Rydym yn falch o'r uchelgais rydym wedi ei osod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd a'r cynlluniau sydd gennym i ehangu'r Gymraeg mewn addysg. Mae'r Gymraeg yn ased a byddwn yn gweithio'n galed i annog pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Rwy'n credu y gall Cymru fod yn rym er daioni yn y byd, ac o fewn y DU. Rydym yn falch o fod yn Genedl Noddfa. Mae gennym draddodiad cryf o gydgenedlaetholdeb ac undod â'r rheini sy'n ymladd dros gyfiawnder a rhyddid ledled y byd. Yn 2006 lansiwyd Cymru ac Affrica mewn ymateb i'r ymgyrch Rhown Derfyn ar Dlodi. Yn 2008 daeth Cymru yn Genedl Masnach Deg gyntaf y byd. Mae pobl yng Nghymru yn poeni'n fawr am dlodi byd-eang a bydd ein hanes cyfoethog o undod â phobl dan ormes gartref a thramor yn parhau dan fy arweiniad. Ni all ein gweithredoedd i greu byd tecach ddod i ben ar ein ffiniau os ydym am gadw at yr uchelgais o fod yn genedl gyfrifol ar lefel fyd-eang. Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl ar y cyrion mewn gwledydd lle rydym wedi adeiladu hanes cyffredin.Mae'r byd yn dod yn fwy ansefydlog ac, fel ein ffrindiau mewn gwledydd bach eraill, mae gennym ni yng Nghymru ddyletswydd foesol i helpu i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU.

Yn y byd hynod gystadleuol sydd ohoni, mae'n rhaid i ni gryfhau ein proffil rhyngwladol ymhellach fyth, nid yn unig drwy undod byd-eang ond drwy fusnes moesegol, mewnforion ac allforion, meithrin cysylltiadau â rhanbarthau allweddol o'r Undeb Ewropeaidd a thu hwnt a defnyddio'r rhwydwaith o Gymry dramor, i adfywio ein cysylltiadau rhyngwladol a'r cyfleoedd a ddaw yn eu sgil.

Mae'n rhaid i ni weithio gyda chymunedau alltud sy'n byw yng Nghymru sy'n llysgenhadon



i ni ac sy'n parhau i fod yn gysylltiedig â'u gwledydd gwreiddiol; meithrin cysylltiadau anffurfiol a chyfnewid diwylliannol. Mae'n rhaid i ni feithrin dysgu a chyfnewid rhyngwladol drwy sefydliadau fel prifysgolion a'r GIG. Rhaid i ni beidio ag allforio ein hôl troed carbon, gan wneud ein dewisiadau defnyddwyr yn broblem garbon i wlad arall. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod agweddau cyfrifoldeb byd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw. Byddaf yn penodi gweinidog â chyfrifoldeb dros raglen ymgysylltu Cymry ar wasgar, "Cymru yn y Byd ", gan weithio gyda'r Cyngor Prydeinig a Llywodraeth y DU, a mynd â gwaith Cymru Fyd-eang i'r lefel nesaf.

## Fy mlaenoriaethau

- Cwblhau diwygio'r Senedd mewn pryd ar gyfer etholiad 2026.
- Datganoli pwerau i bob rhan o Gymru a sicrhau bod y Cabinet yn treulio rhagor o amser y tu allan i Fae Caerdydd.
- Gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod cyllid llywodraeth leol yn cael ei osod ar lefelau sy'n galluogi gwasanaethau lleol i gael eu darparu'n dda, gan gydnabod y pwysau sylweddol ar gyllidebau ac adolygu'r ymagwedd at ariannu gwasanaethau tân ac achub.
- Mynd ar drywydd gweithrediad llawn Adroddiad Gordon Brown ar y cyfansoddiad fel y cam nesaf yn y daith ddatganoli, gan gwmpasu datganoli plismona a chyfiawnder, y llysoedd, gweinyddu budd-daliadau, ac Ystad y Goron; a rhoi'r achos yn gryf dros ragor o bwerau benthyca, dewis amgen i fformiwla Barnett a chryfhau confensiwn Sewel.
- Arwain trafodaeth gyda chymdeithas ddinesig Cymru ar argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru sy'n cryfhau llais Cymru o fewn undeb y Deyrnas Unedig.
- Parhau i adeiladu ar ein cysylltiadau â rhanbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt i feithrin cyfleoedd economaidd, addysgol a diwylliannol a rhoi dadl dros berthynas agosach rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE.
- Adolygu ein cerrig milltir tuag at gyflawni ein nodau yn Cymraeg 2050, i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni ein huchelgais, yng ngoleuni data'r cyfrifiad a data arall sydd ar gael i ni a bwrw ymlaen â deddfwriaeth i ehangu'r Gymraeg mewn addysg fel bod ein holl bobl ifanc yn gallu dysgu'r iaith, p'un a ydynt yn dewis ysgol Gymraeg neu Saesneg.
- Gweithio tuag at gyflwyno gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer rhieni plant mewn addysg Gymraeg.

# Eich helpu i ffynnu yn y gwaith

Mae gan undebau llafur ran hanfodol i'w chwarae ym mhob sector yn ein heconomi fodern ac mewn cyfnod o newid technolegol, i helpu gweithwyr i ffynnu ac i gyflawni ein huchelgais o waith teg.

Gwyddom y gall undebau helpu i gynyddu'r gyfran o'n hincwm cenedlaethol sy'n mynd i'n gweithlu, a gallant wella ansawdd bywyd gwaith i bob un ohonom, yn enwedig y rheini sydd ar y cyflogau isaf. Mae undebau llafur cryf yn hanfodol ar gyfer economi iach a marchnad lafur deg.

Ond yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae gweithwyr ifanc yn llai tebygol o ymuno ag undeb na'r rheini sy'n ymddeol o'r gweithlu ac mae cyfraddau aelodaeth isel mewn rhannau helaeth o'n sector preifat. Gweithwyr yn yr economi gig yw'r rhai lleiaf tebygol o fod yn aelodau undeb. Rhaid inni fynd i'r afael â hyn.

Rwyf am helpu undebau yng Nghymru i addasu ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gweithwyr yn y chwyldro digidol a thechnolegol sydd ar ein gwarthaf. Ac rwyf am i ragor o weithwyr fanteisio ar aelodaeth undeb lafur. Erbyn diwedd y degawd hwn, rwyf am weld newid sylweddol amlwg yng nghanran y gweithwyr y mae eu cyflog, eu telerau ac amodau yn cael eu pennu gan gydfargeinio yn y sectorau preifat a gwirfoddol.

Mae'n rhaid i ni fynd ymhellach yng Nghymru o ran cynyddu aelodaeth a gweithgarwch undebau - a'r canlyniadau buddiol a gaiff i weithwyr a'r economi yn fwy cyffredinol. Felly mae'n rhaid i ni adeiladu ar y gwaith da rydym wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd ac, yn ogystal â chefnogi undebau a gosod nodau ar gyfer aelodaeth undeb ehangach, dylem hefyd wobrwyo busnesau sy'n cydnabod undebau – i helpu i greu diwylliant o bartneriaeth gymdeithasol sydd o fudd i'r ddwy ochr ar draws ein heconomi – yn ogystal â defnyddio ein hysgogiadau fel llywodraeth i ddatblygu economi lle mae cydnabod undebau a chydfargeinio yn norm.



## Fy mlaenoriaethau

- Byddwn yn adfer cyllid ar gyfer Cronfa Ddysgu Undebau Cymru mor fuan â phosib, ac yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ehangu rôl dysgu a arweinir gan undebau mewn polisi sgiliau.
- Ehangu Cyfrifon Dysgu Personol mewn sectorau digidol a sero net ar gyfer ailsgilio yn y gwaith, a gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu defnyddio mewn cytundebau pontio.
- Gwreiddio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a defnyddio caffael moesegol a holl ysgogiadau eraill y llywodraeth i greu rhagor o Waith Teg yng Nghymru, gan gynnwys gwneud mynediad at undebau llafur yn ofyniad o bob gwariant cyhoeddus.
- Annog hyblygrwydd a gofal gan gyflogwyr i fenywod sy'n profi'r menopos.
- Cynnwys cynrychiolaeth undebau llafur ar gyrff cynghori economaidd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyngor Economaidd Cenedlaethol newydd.
- Cefnogi trefniadaeth ar gyfer undebau llafur ar lefel Cymru, trwy Gronfa Cyrhaeddiad Undebau, gyda nod penodol o godi cyfraddau cydfargeinio mewn sectorau ag aelodaeth undeb isel, a gosod targedau ar gyfer cyrhaeddiad cydfargeinio a dwysedd undebau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Ymgysylltu'n adeiladol ag undebau ac eraill mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad TUC Cymru, Dyfodol Datganoli a Gwaith yng Nghymru.
- Penodi Gweinidog dros Waith yn Llywodraeth Cymru, i ddwyn ynghyd ein hymdrechion trawslywodraethol i wreiddio gwaith teg.
- Dechrau adolygiad o'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth, er mwyn cryfhau ei allu i gynyddu lefelau cyflog ein gweithwyr ar y cyflogau isaf.



# Ein plaid ni, wedi'i gwreiddio yn ein cymunedau

## Ni yw etifeddwyr y traddodiad radicalaidd. Ein tasg yw cymhwyso ein gwerthoedd parhaus i'r byd cyfnewidiol yr ydym yn byw ynddo.

Mae Llafur Cymru wedi cyflawni cymaint. Y rheswm am hyn yw bod ein plaid yn gartref i bobl dda sy'n llawn angerdd a thalent - ac ymrwymiad i'n hachos. Hoffwn weld diwylliant o gynhwysiant a charedigrwydd yn ddilysnod i ni fel mudiad. Mae'n rhaid i ni beidio ag ildio ar ein cenhadaeth i gael gwared ar rwystrau i fenywod rhag cymryd rhan a chynrychioli'r blaid ar bob lefel, ac roeddwn yn falch o fod yn gefnogwr brwd i Siarter i Fenywod Llafur Cymru o'i sefydlu ddegawd yn ôl. Mae menywod o fewn ein mudiad yn parhau i ddweud eu dweud yn gryf am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu ac mae'n amlwg i ni gyd fod yr heriau hyn yn bodoli. Nid ydym eto wedi cael Prif Weinidog benywaidd yng Nghymru, menyw Lafur fel arweinydd parhaol plaid y DU nac fel Prif Weinidog y DU. Yn Lloegr, un fenyw Lafur yn unig sy'n gwasanaethu fel Maer Metro. Mae'r ffeithiau'n llwm a, dan fy arweinyddiaeth, hoffwn i Lafur Cymru fod yn fodel rôl. Rydym wedi cyflawni cymaint wrth benodi cabinet 50/50, ond mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen a bydd yn flaenoriaeth ddiamod i sicrhau bod arweinyddiaeth yn y dyfodol yn cynrychioli ein gwerthoedd blaengar.

Mae'n rhaid i Lafur Cymru adlewyrchu ein cenedl yn ei holl amrywiaeth wych, yn ein trefniadaeth ac yn ein cynrychiolaeth. Mae'n rhaid i ni adlewyrchu pob rhan o'n gwlad hefyd – y gogledd, y de, ardaloedd trefol a gwledig – a chofleidio ein hymrwymiad cenedlaethol i'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn fel plaid.

Ond rhaid i ni gydnabod bod natur gweithredu gwleidyddol yn newid mewn rhannau helaeth o Gymru, fel mewn mannau eraill, ac mae ein hymgyrchu lleol wedi lleihau mewn llawer o ardaloedd. Mae'n rhaid i ni gofleidio'r technegau ymgyrchu diweddaraf ac annog gweithredwyr i ddatblygu'r sgiliau trefnu ymgyrchoedd diweddaraf. Wedi'r cwbl, ein haelodau yw ein hased mwyaf. Eich ymroddiad, eich egni, a'ch syniadau yw'r rheswm rydyn ni'n llwyddo.

Dylai ein hymagwedd fod yn unigryw ac yn hyderus Gymreig bob amser – nid er ei mwyn ei hun, ond oherwydd bod Llafur Cymru wedi'i gwreiddio mewn balchder dros ein gwlad a gofal am ein pobl.



# Fy mlaenoriaethau

- Sicrhau bod Llafur Cymru yn darparu'r ystod lawn o gymorth ymgyrchu modern i'n hymgeiswyr Seneddol y DU i sicrhau'r canlyniadau gorau posib yn etholiad cyffredinol y DU sydd ar ddod, fel ein bod yn chwarae ein rhan lawn wrth gyflawni llywodraeth Lafur y DU y mae gwir ei hangen ar bobl Cymru.
- Dod â Llafur Cymru yn nes at ein haelodau drwy sefydlu rhwydwaith polisi parhaus ar gyfer aelodau'r blaid gyflwyno syniadau polisi.
- Cefnogi arweinyddiaeth menywod yn y blaid, cefnogi cynrychiolaeth gyfartal ar restrau byrion a gweithredu amcanion ymgyrchu Siarter i Fenywod Llafur Cymru.
- Cefnogi un aelod, un bleidlais ar gyfer pob etholiad mewnol yng Nghymru.
- Gweithio gydag undebau llafur i sicrhau bod buddiannau gweithwyr wrth wraidd cenhadaeth ein plaid, gan gynnwys sefydlu grŵp cynghori polisi i ystyried goblygiadau a chyfleoedd datganoledig Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl sy'n Gweithio, Llafur y DU.
- Cefnogi pleidiau lleol yn rhagweithiol i chwilio am ymgeiswyr dawnus ar gyfer dewisiadau Senedd 2026, gan sicrhau cynrychiolaeth well, yn arbennig o ran ymgeiswyr benywaidd, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ymgeiswyr anabl a LHDT+ a gweithio gydag undebau llafur i annog a chefnogi ymgeiswyr o'u haelodaeth.
- Sefydlu Llafur Cymru dros Gymunedau, academi trefnu ymgyrchoedd ar gyfer ymgyrchwyr y blaid i ledaenu'r technegau ymgyrchu diweddaraf.
- Sicrhau bod Llafur Cymru yn ei holl waith, a'i chefnogaeth i ymgeiswyr etholiad, bob amser yn adlewyrchu ein huchelgeisiau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.



# Sut y byddwn yn cyflawni'r hyn sydd angen ei wneud

Mae'r "sut" cyn bwysiced â'r "beth". Mae'n rhaid i ni feddwl o'r newydd sut yr ydym yn rhedeg ein llywodraeth i ymateb i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu.

Bydd angen llywodraeth i gyd-fynd ag economi fwy mentrus, sy'n cynnwys busnesau newydd. Mewn cyfnod o bwysau aruthrol ar y gyllideb, mae'n bwysicach fyth ein bod yn gwella effeithiolrwydd a pherfformiad y llywodraeth. Nid strategaeth newydd neu ddarn newydd o ddeddfwriaeth yw'r ateb i bob problem bob amser: mae ffocws diwyro ar gyflawni a gweithredu'n effeithiol yn gwbl hanfodol.

I wneud hyn, mae angen gwladwriaeth glyfar sy'n galluogi – llywodraeth sy'n arwain yn hyderus ond sydd hefyd yn gwrando. Dyma ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth ddatganoledig a byddwn yn gwneud hyn yn ffynhonnell o fantais gystadleuol i Gymru. Bydd ein hymagwedd yn cael ei hysbrydoli gan bopeth a wyddom am sut mae sefydliadau llwyddiannus yn gweithio ac yn cyflawni'r hyn sydd angen ei wneud, fel y gallwn wasanaethu dinasyddion Cymru orau.

Er mwyn diogelu gwaith y llywodraeth ar gyfer y dyfodol, byddwn yn cyflawni ein haddewid i sefydlu Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru sy'n bwrpasol ar gyfer meddwl strategol hirdymor, darpariaeth, a thalent. Byddwn hefyd yn adeiladu gallu gwyddor data a Deallusrwydd Artiffisial penodol o fewn y llywodraeth.

Byddwn yn gosod nodau beiddgar ac yn grymuso eraill ar y rheng flaen i'n helpu i'w cyflawni. Byddwn yn anelu at sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn gyflymach a bod ymdrin â gwladwriaeth Cymru yn symlach. Bydd ein ffocws ar ganlyniadau yn fwy na mewnbynnau, a byddwn am gael ein mesur ar ein canlyniadau nid ein rhethreg. Byddwn yn annog y dalent orau, yr ymddygiadau gorau a'r syniadau gorau.

Byddwn yn croesawu egwyddorion bod yn agored ac yn atebol, ac yn adlewyrchu hyn yn ein polisïau a'n harferion – a byddwn yn disgwyl yr un peth gan eraill.




usdaw.org.uk
The campaigning union
USDAW
LABOUR PARTY
Jeremy Miles
Member of the Senedd
Ex-officio
Hall

# Jeremy Miles
Dros Ddyfodol Cymru

www.jeremymiles.cymru

Jeremy_Miles    jeremymilesmsas    JeremyMilesMSAS